COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD AR LEIN (TRWY ZOOM), NOS FAWRTH, 26AIN MAI 2020 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd C. Brockley (Cadeirydd)
Cynghorwyr N. Bastow (Y Maer), B. Barton, G. Campbell, Mrs M. Jones (Dirprwy Faer), J. Pearson (Warden Coed), M. Tasker, M. Worth.

SWYDDOG: Mrs Tina Earley, Clerc y Dref

494/19 <u>Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:</u>

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs Glenys Baker, D. Bradley, A. Howcroft-Jones a C. Matthews a Mrs R. Dudley, Clerc Cynorthwyol.
Fe nodwyd bod y Cynghorydd C. Matthews wedi gofyn am ganiatâd i ildio'i sedd ar y Pwyllgor dros dro am resymau meddygol. Fe gyflwynir y cais hon i gyfarfod nesaf y Cyngor.

495/19 <u>Datgan Cysylltiadau:</u>

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai all ragfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

496/19 <u>Cofnodion</u>:

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 5ed Mai 2020 yn adroddiad cywir.

497/19 <u>Addewid y Gymuned Werdd:</u>

Cyflwynodd y Clerc y cynllun gwaith drafft gan roi manylion am y newidiadau gwyrdd y gellir eu gwneud i ennill statws Arian Addewid Cymuned Werdd.

Fe gynigiwyd ehangu gweithred 4.3 er mwyn gallu cyrraedd y rhai yn ein cymuned nad ydynt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac fe ddylai gweithred 5.3 cynnwys archwilio casglu dŵr glaw o do Neuadd y Dref hefyd. Gofynnwyd hefyd a oedd angen pwynt pweru cerbydau trydan yn Neuadd y Dref am fod mwy o gerbydau yn drydan heibrid rŵan, gyda'r gallu i hunan bweru

Atebodd y Clerc trwy ddweud mai cynllun amlinellol oedd hwn a byddai'r gweithrediadau a flaenoriaethwyd yn cael eu harchwilio / adolygu gan y Cyngor fel oedd y prosiect yn mynd yn ei flaen. Bydd cyfle hefyd i ychwanegu gweithrediadau eraill yn y dyfodol, o fewn yr adnoddau oedd ar gael (amser y staff a darpariaethau'r cyllidebau).

Penderfynwyd argymell bod y cynllun gweithrediad drafft yn cael ei fabwysiadu.

498/19 <u>Cynllunio</u>:

a Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried.

Penderfynwyd anfon sylwadau ar y ceisiadau hyn yn unol â'r hyn a welir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

b <u>Ceisiadau Cynllunio O/47275 & O/47276:</u>

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar i adael i'r Aelodau wybod am benderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yr wythnos diwethaf. Mae hyn yn golygu bod yr ymgeisydd yn gorfod cyflwyno cais cyn cymeradwyo, i gynnwys delweddau mewnol o'r adeiladau, Bydd hyn yn rhoi 8 wythnos ychwanegol i'r ACLl i benderfynu ar y cais. Dylai bod hyn yn ddigon o amser hefyd i Cadw cael ystyried a phenderfynu ar y cais i restru, cais a gyflwynwyd yn Ionawr

c) ***Penderfynwyd derbyn copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy yn y cyfnod 4/5/2020 hyd at 17/5/2020.***

ch) Cymorth Cynllunio Cymru: Fe nodwyd bod y Clerc yn bwriadu ceisio dod i gytundeb gyda PCRT i gymryd rhan yn hyfforddiant amlinellol Cymorth Cynllunio Cymru i hyd at 20 aelod / staff am flwyddyn am gost gyfan gwbl o £150.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.20 pm …… Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD ONLINE (VIA ZOOM) AT 6:30PM ON TUESDAY 26TH MAY 2020

PRESENT: Cllr C Brockley (Chair)
Cllrs: N Bastow (Mayor); B Barton; G Campbell; Mrs M Jones (Deputy Mayor); J Pearson; M Tasker; M Worth.

OFFICER: Mrs Tina Earley, Clerk

193/19 Welcome and Apologies for Absence:

Apologies for absence were received from Cllrs: G Baker, D Bradley, A Howcroft-Jones and C Matthews and from Mrs R Dudley, Assistant Clerk. It was noted that Cllr C Matthews had requested to stand down from the Committee for the time being, for health reasons. This request will be submitted to the next Council meeting.

194/19 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

195/19 Minutes:

Resolved to approve and sign, as a correct record, the minutes of the last meeting, held on 5th March 2020.

196/19 Community Green Pledge:

The Clerk submitted the draft action plan, detailing some of the green changes that can be made in order to attain the Silver Community Green Pledge status.

It was proposed that action 4.3 be expanded to reach those in our community that do not use social media, e.g. on the website, and that action 5.3 should also include looking at ways to harvest rainwater from the Town Hall roof. The need for an electric vehicle charging point at the Town Hall was also queried, as more vehicles are now hybrids and have the ability to charge themselves.

The Clerk responded that this was an outline plan and the prioritised actions would be further explored/reviewed by the Council as the project progresses. There will also be opportunities to add further actions in the coming years, within the resources available (staff time and budget provisions)

Resolved to recommend the draft action plan for adoption.

197/19 Planning:

a) The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.

Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule 'A' attached.

b) <u>Planning Applications 0/47275 & 0/47276</u>:

The Clerk gave a brief verbal update, informing members that a decision had been issued by the Local Planning Authority (LPA) last week. This requires the applicant to submit a prior approval application, to include internal images of the buildings. This will give the LPA a further 8 weeks to decide the application, which should be enough time for Cadw to consider and determine the listing application, which was lodged in January.

c) *Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC for the period 04/05/2020 – 17/05/2020.*

d) Planning Aid Wales: It was noted that the Clerk intends to seek agreement from the PCRT to sign up to the Planning Aid Wales online training for up to 20 members/staff for a year, at a total cost of £150.

The meeting closed at 7.20 p.m.

……. Chairman